Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Ysbyty Athrofaol y Faenor Llyfryn Gwybodaeth i Gleifion a Perthnasau ar 'Fyrddio'



## Beth galla i ei ddisgwyl?

- Bydd eich gofal gan staff nyrsio, meddygol, a therapi o'r un safon â phe baech chi mewn ystafell ysbyty.
- Cewch chi wely, cadair, a bwrdd.
- Cewch chi frecwast, cinio, swper a diodydd poeth ac oer, yr un peth.
- Cewch chi wybod lle mae'r tai bach agosaf.
- Dim ond am gyfnod bach y byddwch chi yn yr ardal 'byrddio'.
- Cewch chi lenni neu sgrîn er eich preifatrwydd a'ch urddas.
- Caiff pobl ddod i'ch gweld chi.

Os hoffech chi godi pryderon o ran eich gofal/gwasanaethau, ewch at y Nyrs Gofal yn y lle cyntaf. Bydd y Nyrs Gofal yn ceisio datrys y mater. Os ydych chi'n teimlo nad ymdriniwyd â'ch pryderon yn foddhaol ac rydych chi'n dymuno gwneud cwyn ffurfiol, dylech chi gysylltu â:

**Rhif Ffôn y Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid: 01633 431666**
**E-bost:** PuttingThingsRight.ABHB@wales.nhs.uk

**Pam y byddai angen gofalu am bobl y tu allan i ystafell i un neu sawl person?**

Mae mwy a mwy o bobl yn ymweld â’n Hadrannau Achosion Brys ac Unedau Asesu. Bydd llawer o'r bobl hyn yn sâl iawn ac mae angen eu derbyn i'r ysbyty ar frys.

Yn aml, mae'r gwelyau ar ein wardiau eisoes yn cael eu defnyddio. Er mwyn sicrhau y gallwn ni roi gofal brys i bobl sydd angen dod i'r ysbyty, efallai y bydd angen gofalu am bobl ar wely mewn coridor neu ystafell ddydd ar rai achlysuron. ‘Byrddio’ yw hynny.

Rydyn ni’n gwybod nad yw hyn yn ddelfrydol, ond rydyn ni’n credu mai dyma'r ffordd fwyaf diogel o sicrhau bod modd derbyn y bobl hynny i’r ysbyty sydd ei angen fwyaf, gan ryddhau ambiwlansys ar gyfer pobl yn y gymuned sydd o bosibl angen cymorth ar frys.

Lle mae angen i ni 'fyrddio' pobl, gwneir pob ymdrech i symud pobl i ystafell (neu eu trosglwyddo i ysbyty arall) cyn gynted â phosibl.

**Beth yw Byrddio?**

- Byrddio yw gofalu am rywun mewn ardal nad yw’n ystafell arferol ar gyfer trin un person neu fwy nag un person. ‘Ardal byrddio’ yw ardal o’r fath.

- ‘Claf wedi’i fwrddio’ yw rhywun sydd wedi’i dderbyn, er bod y ward yn llawn, fel claf ‘ychwanegol’. Bydd nyrs, meddyg, a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn gofalu am y person hwnnw tra’i fod mewn ardal ‘byrddio’.

## Ar gyfer pwy mae Byrddio yn addas?

Mae Byrddio yn addas os nad oes salwch difrifol ar y person. Bydd staff meddygol a nyrsio yn cytuno pwy allai fod yn addas ar gyfer 'byrddio' a bydd hynny’n cael ei adolygu'n gyson. Isod mae rhai enghreifftiau o bwy y gellid ei 'fyrddio' yn ddiogel:

- Pobl sy'n gallu cerdded heb fawr o gymorth.

- Pobl nad oes angen ocsigen arnyn nhw.

- Pobl nad oes angen eu monitro'n gyson

- Pobl nad ydyn nhw’n ddifrifol wael mwyach.

- Pobl sy'n aros i gael eu rhyddhau adref neu sy'n trosglwyddo i ysbyty arall.